

Cofion

Anfonwn ein cofion heddiw at Elwyn Roberts (Llansannan) a Tudor Davies (Llanfair). Bu i'r ddau dreulio rhai nosweithiau yn Ysbyty Glan Clwyd yn ystod y pythefnos ddiwethaf. Cyflwynwn y ddau i ofal yr Arglwydd, a gweddiwn y byddant cryfhau ac yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu y dyddiau hyn. Parhawn i gofio hefyd am Morfudd Roberts a Bessie Roberts (Llanefydd) sy'n cael gofal yn yr Inffirmari, a hefyd Bob Davies (Llanfair) yn Ysbyty Llandudno. Cyflwynwn hwythau yn ein gweddiâu gan hyderu eu bod yn adnabod gofal a chwmni'r Arglwydd. Ar yr un pryd, yr ydym yn sylweddoli fod eraill yn ein plith yn mynd trwy gyfnod digon anodd yn eu hanes. Fe bery'r rhain yn ein gweddiâu yn yr un modd.

Gwaith Llafar yr Ysgol Sul

Penderfynwyd gosod gwaith dysgu ar gyfer pob oedran eto eleni! Yn ogystal ag adrodd y gwaith yn yr eglwys leol yn ystod un o'r Suliau nesaf, bydd cyfle i bob oed gyflwyno'r gwaith llafar yn ystod "*i-Grist*" sef y gwasanaeth ar fore Sul y Fro, Gorffennaf 13eg yn Llansannan. Dyma'r gwaith dysgu:

Blwyddyn 2 ac iau: "Cân yr Haf" (Pennill gyntaf Emyr 2, Detholiad 2013-14 / CFF 141) – *canu neu adrodd*

Blwyddyn 3 – 6: Ioan 3: 16

Oedran Uwchradd ac Oedolion: Ioan 1: 1-6 (BCN)

Mae croeso hefyd i bwy bynnag sy'n dymuno i baratoi **llun/cyflwyniad creadigol** syml i gyd-fynd efo'r gwaith llafar. Er mwyn inni gael paratoi cyflwyniad PowerPoint ohonynt i'w dangos ar y wal yn ystod yr oedfa "*i-Grist*", gofynnir yn garedig i'r arolygwyr Ysgol Sul drefnu bod pob cyflwyniad (gydag enw a'r oed ar y cefn) yn cyrraedd Mair erbyn dydd Mercher, Gorffennaf 9fed, os gwelwch yn dda.

Bydd yr Ysgolion Sul yn cyflwyno tystysgrif i'r plant oed cynradd ac iau yn dilyn gwrando arnynt yn adrodd/canu yn yr eglwys leol. I gael y tystysgrifau ac os ydych am nodi yn Llais Bro Aled y Sul y byddwch yn cyflwyno'r gwaith yn lleol, cysylltwch â Mair (870632). Hwyl ar y dysgu!

I ddod

- **ASTUDIAETH FEIBLAIDD I'R FRO** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd nos Iau, Mehefin 26ain am 7.30.
- **YSGOL HAF Y WEINIDOGAETH IACHAU** ar Mehefin 30ain–Gorffennaf 2il yng Nghanolfan Cefn Lea, Dolfor, Y Drenewydd SY16 4AJ. Cysylltwch â Marian Lloyd Jones, Gwylfa, Allt-Tŷ-Gwyn, Rhosllannerchrugog, Wrecsam LL14 1EL / (01978) 846151 / geraint.w.jones@btinternet.com am fwy o wybodaeth.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 15^{fed} Mehefin 2014

Darlleniad y Dydd

Titus 3: 1-8

(BCND tud.237 / BCN: tud.218)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da a chroeso cynnes i oedfaon y dydd! Pan oeddwn i yn chwarae pêl-droed ers talwm (iawn!) byddwn wrth fy modd yn rhoi *pass* dda. Dwi'n cofio sgorio ambell i gôl hefyd. Unwaith fe sgoriais i saith allan o'r wyth yn erbyn ysgol gynradd Llanfair TH a John Penrhwyfala'n cael y llall pan oeddem tua naw oed! Roedd John wedi hen arfer rhedeg ac roedd yn chwim iawn. Asgellwr chwim tîm Ysgol Glan Clwyd oedd Lloyd Roberts, Abergele – un o efeilliaid Nefydd Roberts a oedd yn cadw garej yn y dre. Byddai cael Bryn Jones, Bodeiliog (Tyddyn Isa erbyn hyn), fel ymosodwr yn gaffaeliad mawr hefyd – fel rhyw Mark Hughes yn arwain y llinell.

Ar y chwith yng nghanol y cae y byddwn i ac weithiau yn rhoi *pass* hir i'r asgell dde ple byddai Lloyd yn carlamu amdani ac yntau wedyn yn ei chroesi i'r canol at Bryn. Peniad neu ergyd wedyn a gôl yn dilyn. Peth braf oedd cymryd rhan yn y symudiad. Er na fyddwn wedi sgorio roeddwn wedi cyfrannu at greu y gôl ac roedd hynny'n deimlad braf! Byddwn wrth fy modd yn clywed "*Good ball, Lawms!*" gan aelodau eraill y tîm. Roedd rhoi pêl dda gystal â sgorio! Wrth wyllo Cwpan y Byd byddaf yn astudio chwareuwyr canol cae ac yn hiraethu am y dyddiau da!

Mae'n dealltwriaeth ni o waith yr Ysbryd Glân yn ganolog i'n ffydd. Mae perthynas agos rhwng yr hyn a gyflawnodd Iesu a'r hyn a wna yr Ysbryd. Maent yn yr un tîm, ar yr un ochr fel petai. Mae un yn hyrwyddo'r llall. Heb waith gorffenedig Crist ni fyddai'r Ysbryd wedi cael ei anfon. Heb i'r Ysbryd gael ei anfon i agor ein llygaid ni fyddai Crist na'i waith yn golygu dim i ni. Mae un yn dibynnu ar y llall fel y gwelwn o'r darlleniad. "Tywalltodd yr Ysbryd arnon ni'n hael o achos beth oedd Iesu Grist wedi ei wneud i'n hachub ni." (Adnod 6)

Mae Duw yn un Duw, yn un tîm o drindod o bersonau yn cydweithio i'n hachub ni ac i ddod â ni i'w adnabod yn Dduw. A sicrwydd o hyn sydd yn peri gwir lawenydd a thangnefedd.

'Does ryfedd fod Iesu'n dweud y bydd llawenydd yn y nef wrth i un pechadur edifarhau. Dyma'r dyrfa'n gweiddi canmoliaeth wrth i'r gôl gael ei sgorio wedi'r holl gydweithio!

Ond dyna ddigon am bêl-droed – fe dria'i ngorau i beidio cyfeirio gormod at Brasil dros yr wythnosau nesa!

Aneurin

Darlleniad Wythnos Nesaf

Eseia 40: 1-8 (BCND tud.654 / BCN: tud.597)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher • **Adnabod Cymdeithasol** - Taith Gerdded hamddenol. Cychwyn ger Capel Cefn Berain am 6.30. *(Os bydd y tywydd yn anffafriol, edrychwch ar dudalen flaen gwefan yr Ofalaeth neu cysylltwch â Mair i wybod fydd y daith ymlaen ai peidio.)*
- Gwener • (Ni fydd **C.I.C.** yn cyfarfod heno ond bydd barbeciw a gemau nos Wener, Mehefin 27ain.)
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir "Wedi'r Oedfa" yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn am 8.00 yng nghwmni Genod y Gân ac artistiaid lleol. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Alun Jones yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Rhag-hysbys Cynhelir cyfarfod i drefnu dathlu canmlwyddiant Capel Coffa Henry Rees nos Fercher, Mehefin 25ain am 7.30. Croeso cynnes i bob aelod. Yn dilyn, bydd cyfarfod o'r Pwyllgor Adeiladau.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00, a bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn oedfa'r pawns yn Saron.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Henllan.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma *SYLWCH AR Y NEWID YN NHREFNIADAU'R DDAU SUL NESAF* Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd i'r daith **yng Nghefn Berain** am 2.00 pryd y bydd Owain a Nia yn cyflwyno Martha i gael ei bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith **yn Llanefydd** am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i'r newyddion da am Grist, dathlu Ei bresenoldeb a gwasanaethu mewn ffordd gyfoes a pherthnasol.